

'Yn wir, ti a gysegrwyd i mi â'r fodrwy hon, yn ôl deddfau Moses a phobl Israel.'

Gwisga'r briodferch len, yn ôl yr hen arfer sydd yn gwahardd i ferch ddibriod ymddangos yn gyhoeddus heb guddio ei hwyneb. Ond ar ddiwedd y ddefod, y mae'n tynnu'r llen i ddangos ei bod yn wraig briod.

Cyn dechrau ar y ddefod briodasol, arwyddir cytundeb y briodas, KETHUBAH, gan ddau dyst. Yn y cytundeb y mae'r priodfab yn addo cynnal ei gymar, a rhestrir cyfrifoldebau materol ac ysbrydol y naill at y llall. Yn ystod y ddefod, darllenir y KETHUBAH gan y Rabbi, ac yna adroddir y Saith Bendith i ddiolch i Dduw am briodas a theulu, am greu dyn ar ddelw Duw, ac am lawenydd priodas.

(c) *Marwolaeth a Chladdedigaeith*

Wrth i farwolaeth nesáu, y mae'r Iddew'n cyffesu (NIDDUI), mewn defod sydd yn mynegi'i ffydd yn y bywyd sydd i ddyfod. Dyma'r gyffes:

'Bydded i'th ewylllys Di fy iacháu yn llwyr. Eto, os bwriadwyd i mi farw, mi a dderbyniaf hyn oddi ar dy law â chariad. O Dad y rhai amddifad a Barnwr y weddw, diogela fy rhai annwyl.'

Ei eiriau olaf yw:

'Clyw, O Israel; yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd. Câb gan hynny yr Arglwydd dy Dduw ...'

Gwisgir yr ymadawedig mewn amwsg liain. Cynhelir y gwasanaeth angladdol, os yw hynny'n briodol, mewn synagog, â'r Rabbi yn gweinyddu. Nid oes gwasanaeth swyddogol, ond yr arferiad yw darllen darnau addas o'r Salmu, traddodi anerchiad i werthfawrogi'r ymadawedig, offrymu gweddïau drosto, ac adrodd y KADDISH, gweddi i glodfori brenhiniaeth Duw ar bob bywyd. Cyn yr angladd, y mae perthnasau'r ymadawedig yn rhwygo rhan fechan o'u dillad i fynegi eu galar. Gelwir hyn KERICAH, ac wrth rwygo'r dillad adroddant y geiriau:

'Bendigedig wyt Ti, O Arglwydd ein Duw, Brenin y Bydysawd, yr hwn wyt Farnwr Cyfiawn.'

Dilynir yr angladd gan saith diwrnod o alaru teuluol, wythnos a elwir SHIVOH. Yn ystod yr wythnos hon cynhelir gwasanaeth personol parhaol yn y cartref, a myfyrdod tawel â lamp goffa yn llosgi drwy'r amser. Y mae'r perthnasau agosaf yn galaru am fis cyfan, ac ar ben-blwydd y farwolaeth, cynhelir gan rai Iddewon wasanaeth coffa a elwir Yahrzeit.

PENNOD 5

ADDOLIAD A PHERSONAU SANCTAIDD

5.1 *Addoliad y Teulu*

Yr uned bwysicaf yng nghyfundrefn gymdeithasol Iddewiaeth yw'r teulu. Rhydd y Beibl a'r Talmud bwyslais arbenig ar y bywyd teuluol fel uned grefyddol. Y tad yw'r pen, ac ef sy'n gyfrifol am gadw undod y teulu, ac am arwain ei ddefodau. Fel enghraifft o addoliad teuluol, disgrifir yn fyr brif elfennau defodau'r KIDDUSH a HADALAL.

Defod o dderbyn y Saboth yw'r KIDDUSH (Sancteiddio'r Saboth), defod sy'n pwysleisio 'gwahaniaeth' y dydd hwn mewn modd nodweddiadol o deulu Iddewig.

Yn gyntaf, y mae gwraig y tŷ yn goleuo canhwylau'r Saboth, ac yn offrymu gweddi syml:

'Bendigedig wyt Ti, O Arglwydd ein Duw,

Brenin y bydysawd;

Ti a'n sancteiddiaist ni trwy Dy orchmynion;

Ti a'n gorchmynnaist ni i oleuo lamp y Saboth.'

Yn ail, cenir emynau ac adroddir Salm y Saboth (92 : 1-5):

'Da yw molianu yr Arglwydd, a chanu mawl i'th enw di, y Goruchaf. A mynegi y bore am dy drugaredd, a'th wirionedd y nosweithiau; Ar ddechant, ac ar y nabl; ac ar y delyn yn fyfyrïol. Canys llawenychaist fi, O Arglwydd . . . Mor fawredig, O Arglwydd, yw dy weithredoedd!'

Yn drydydd, y mae'r teulu'n ymgynnull o gwmpas y bwrdd. Ar hwn rhoddir dwy dorth o fara fel symbol o'r manna a gasglodd pobl Israel yn yr anialwch ar y dydd cyn y Saboth (Exodus 16 : 22). Ochr



(Llun 8) *Defod derbyn y Saboth (KIDDUSSH)*. (The Council of Christians and Jews)

yn ochr â'r rhain, gosodir cwpan o win a chwpan gwag cyn i'r penteulu ddarllen rhan o stori'r creu o lyfr Genesis. Ar ôl iddo lenwi'r cwpan a'i ddal yn ei law, offrymir y weddi:

'Bendigedig wyt Ti, O Arglwydd ein Duw, Brenin y bydysawd, Crëwr firwyth y winwydden.

Bendigedig wyt Ti, O Arglwydd ein Duw, Brenin y bydysawd, yr Hwn a'n sancteiddiaist ni â'th orchmynion, yr Hwn wyt yn foddhaol gennym ni, ac a'n rhoddaist ni yn etifeddiaeth mewn cariad a gras, â'th Saboth sanctaidd i goffâu'r weithred o greu.'

Adroddir hyn cyn pob cynulliad sanctaidd, er cof am y ffoi o'r Aifft.

'Canys Ti a'n dewisaist ni, ac a'n sancteiddiaist ni gerbron yr holl genhedloedd, ac mewn cariad a gras, Ti a roddest i ni Dy Saboth Sanctaidd yn etifeddiaeth.'

Ar ôl y weddi, cymer y tad y cwpan ac yfed ohono cyn ei gynnig i'w wraig a'i blant.

Wedyn y mae'r tad yn golchi ei ddwylo yn ôl arfer y traddodiad ('Golchaf fy nwylo mewn diniweidrwydd', Salm 26 : 6) cyn bendithio'r bara:

'Bendigedig wyt Ti, O Arglwydd ein Duw, brenin y bydysawd; Ti a ddygaist fara o'r ddaear.'

Yna rhennir y bara, ac y mae'r teulu'n bwyta pryd y Saboth. Y mae hwn yn bryd arbennig iawn, a fwyteir yn eiddgar a llawen i groesawu'r Saboth mewn ysbryd parod a gorfoleddus. Dyma gynnwys un o'r emynau adnabyddus a genir i groesawu'r dydd hwn:

'Tyrd allan, O fy nghyfaill, i groesawu'r briodferch;

Tyrd, O fy nghyfaill, croesawu'r Saboth.

Croesawn y Saboth wrth ein drws,

Ffynnon dda o fendith am byth,

Yn gorlifo o lawenydd tragwyddol,

A ordeiniwyd o hirbell, a ddysgwyd yn ddwyfol,

Yr olaf a grewyd,

Y cyntaf mewn meddwl.'

Defod i ddwyn y Saboth i ben yw HABDALAL, a dechreuir arni ar ôl chwech o'r gloch ar nos Sadwrn. Ystyr y gair HABDALAL yw 'gwahanu', a chynhelir defodau arbennig wrth ffarwelio â'r Saboth, a chroesawu diwrnod gwaith. Darllenir rhan o'r ysgrythur, a bendithir y cwpan o win; offrymir diolch am y Saboth, 'fflamau goleuedig y tân', ac am fendithion o wahanol fathau. Yna offrymir gweddi'r 'gwahanu':

'Bendigedig wyt Ti, O Arglwydd ein Duw, yr Hwn wyt yn gwahaniaethu rhwng y sanctaidd a'r halogedig; rhwng goleuni a thywyllwch, rhwng Israel a'r cenhedloedd, rhwng y seithfed dydd a'r chwe diwrnod o waith. Bendigedig wyt Ti, O Arglwydd ein Duw, yr Hwn wyt yn gwahaniaethu rhwng y sanctaidd a'r halogedig.'

Ar ôl y weddi, y mae'r gwŷr yn yfed y gwin, a diffoddir y canhwylau. Wedyn cenir emynau fel yr emyn canlynol:

'Bydded i'r Hwn sydd yn gwahaniaethu rhwng y cysegredig a'r halogedig

Guddio ein pechodau o'i olwg,

A gwneud ein rhif eto fel y tywod,

Ac fel sêr y nos.'

Yna offrymir nifer o weddïau, gan gynnwys gweddi am ddyfodiad Eleias a dyfodiad y Mescia.

Dengys yr enghraifft hon o blith arferion crefyddol y teulu fel y mae Iddewiaeth yn talu gwrogaeth i ddylanwad y teulu ymhob agwedd ar fywyd. Y mae cadw dyletswyddau'r cartref yn rhan anhepgor o dyletswyddau crefyddol pob Iddew, ac y mae'r dyletswyddau wythnosol yn gymorth i gadw'r gred fod Iddewiaeth dan ffafr Duw ar flaen y meddwl. Ar yr un pryd y maent yn cryfhau undod y teulu, ac yn rhwymo'r aelodau mewn cariad at ei gilydd ac at y traddodiad crefyddol.

5.2 Addoliad y Synagog

Dywedir mai calon Iddewiaeth yw'r synagog. Ystyr y gair yw 'ymgynnull ynghyd'. Sefydlwyd y synagog yn y drydedd ganrif CC, ac yn yr iaith Hebraeg, ceir tri enw ar wahanol swyddogaethau'r synagog:

BETH HA-TEFILLAH = tŷ gweddi
BETH HA-KENESET = tŷ cwrdd
BETH HA-MIDRASH = tŷ dysg

Yn y synagog y mae'r Iddew'n cyflawni tri o orchwylion sylfaenol ei grefydd, sef gweddio, astudio a chynorthwyo eraill. Amlygir pwysigrwydd y cynthiaf yn yr arferiad o neilltuo tair adeg wahanol ar gyfer gweddio yn y synagog yn feunyddiol — y bore, y prynhawn a'r hwyr. Y mae dysgu yn agwedd hanfodol arall ar ddefodau Iddewiaeth. Y mae'r Iddew'n dyfnhau ei wybodaeth gysegredig trwy addoli yn y synagog, ac os esgeulusa'r ddyletswydd hon, y mae'n colli'r wybodaeth sydd ganddo. Ond nid yw gweddi na dysg yn ddigonol ynddynt eu hunain, onid ydynt yn esgor ar wasanaethu, ac ar y weithred o gynorthwyo eraill.

Nid oes delwau na darluniau yn y synagog, er y ceir testunau o'r Beibl ar y muriau. Un o'r addurniadau mwyaf cyffredin yw Seren Dafydd, a cheir yn aml ar yr Arch — math ar gist — gerflun o lew neu eryr neu ddwy garreg, yn arwydd o'r Deg Gorchymyn.

Canolbwynt y synagog yw'r Arch, a saif ar y mur dwyreiniol. Yma y cedwir y sgroliau cysegredig. O flaen yr Arch llosga'r goleuni tragwyddol i atgoffa'r addolwyr am y saith canhwylbren a oleuwyd i losgi yn y deml yn Jerwsalem.

Arweinir addoliad y synagog o'r llwyfan (BIMAH). Nid yw'n hanfodol i aelod o urdd offeiriadol neu i weinidog proffesiynol arwain yr addoliad, ond fel arfer y mae un o'r tri swyddog canlynol yn ymgymryd â'r gorchwyl, sef:

(i) *HASAN* (Cantor) arweinydd addoliad y synagog, yn arbennig y gweddïau. Un o ddyletswyddau'r *HASAN* yw gofalu am sgroliau'r synagog a'r adeilad a'r celfi yn ogystal. Ef hefyd yn yr hen oes a gyhoeddai o do'r synagog ddyfodiad y Saboth a'r dyddiau gwyl.

(ii) *SHELLAH SIBWR* (Negesydd y Gymdeithas) Y mae'n cynrychioli'r gymdeithas trwy adrodd y gweddïau.

(iii) *RABBI* (Athro) esboniwr a chyfarwyddwr yn y Gyfraith, gweinyddwr y gwasanaethau, arweinydd crefyddol.

Trefnir gwasanaethau'r synagog yn y dull canlynol, er bod ffurf y gwasanaeth yn gwahaniaethu o le i le; ond dyma'r prif elfennau:

Adrodd y SHEMA
Gweddi (Y KADDISH, gweddi Aramaeg)

Darllen y TORAH a'r Proffwydi

Salm

Y Fendith

Y mae'r SHEMA yn cynnwys adnodau o Deuteronomium 6 : 4-9; 11 : 13-21; Numeri 15 : 37-41. Meddylir am y SHEMA fel cyfres ffydd Iddewiaeth (gwel. 4.1).

Yr enw ar weddi'r synagog yw *SHEMONEH 'ESREH*, sef y Deunaw Bendith. Daw'r weddi hon o'r ganrif gyntaf OC, er bod ei chynnwys yn llawer hŷn. Y mae cynulleidfia'r synagog yn sefyll i weddio, ac ar y diwedd yn dweud Amen.

Yn y ganrif gyntaf CC, trefnwyd y Gyfraith (*TORAH*) yn rhannau i'w darllen ar bob Saboth, a'r rheol oedd y dylid darllen y *TORAH* (pum llyfr cynthiaf y Beibl) ar ei hyd mewn cylch o dair blynedd. Yn ddiweddarach rhannwyd y *TORAH* yn hanner cant a phedair o rannau ar gyfer darlenniadau'r synagog.

Nid oedd yr un rheol yn perthyn i'r Proffwydi. Gadewir i'r *HASAN*, rheolwr y synagog neu'r darllenwr, benderfynu pa rannau o'r Proffwydi y dylid eu darllen.

Ar ôl y darlenniadau o'r ysgrifthurau, daw'r homili neu'r esboniad arnynt. Traddodir yr esboniad ar wahoddiad yr *HASAN*, a chan y traddodwr ar ei eistedd.

Gorffennir gwasanaeth y synagog â'r fendith. Yn yr hen amser yr offeiriad a draddodai'r fendith ar wahoddiad yr *HASAN*. Yr arfer oedd iddo wynebu'r gynulleidfa a sefyll gan ddal ei freichiau i fyny hyd at ei ysgwydd, ac i'r gynulleidfa ailadrodd y fendith ar ei ôl, a dweud Amen ar ddiwedd pob un o'i thair rhan.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y synagog yng ngolwg Iddewiaeth. Ynddi ar hyd y canrifoedd y mae dilynwyr y grefydd wedi ymgynnull i astudio a thrafod hanfod y gwirionedd dwyfol, i ddysgu'r hanfodion ac i ymarfer ei hegwyddorion. Yma hefyd y maent wedi offrymu addoliad ysbrydol mewn ysbryd o deyrngarwch ac ufudd-dod i Dduw'r cyfamod. Nid mater o draddodiad yn unig yw mynychu'r synagog i Iddew crefyddol, ond cyfrwng i'w ddwyn wyneb yn wyneb â Duw, a'i gadw'n ffyddlon i'r genedl ddethol o hyd. Iddo ef, crefydd fyw yw Iddewiaeth, a thrwy ddefodau'r synagog, cedwir ysbryd defosiwn a duwioldeb yn fyw yn ei fywyd.

Y mae'r synagog, yng ngolwg yr Iddew, yn athrofa addysgol, ac yno gall ddysgu elfennau'i grefydd a hanes ei genedl. Y mae wedi ennill ei lle fel llys barn a lle i ddyfarnu achosion personol a chymdeithasol. Cymwys, felly, yw ystyr yr enw — man cyfarfod — a dyna a fu'r synagog ar hyd yr oesoedd, man cyfarfod i ddibenion cyfraith, crefydd a chymdeithas.

5.3 *Addoliad y Saboth*

Pery'r Saboth Iddewig o fachludiad yr haul nos Wener hyd nos Sadwrn. Cedwir y dydd yn sanctaidd yn ôl gorchymyn Moses.

'Cofier y dydd Saboth i'w sancteiddio ef.'

ac i goffâu cwblhau'r gwaith o greu'r byd. Ar y seithfed dydd gorffwysodd Duw o'i waith. Ystyr y gair Hebraeg am Saboth (SHABBAT) yw 'gorffwys', a chedwir y dydd hwn ar wahân ar gyfer gorffwys, gweddio ac astudio. Cred yr Iddew fod pob Saboth yn Saboth yr Arglwydd Dduw, ac yn arwydd o'i gyfarnod â'r bobl etholedig.

Yr ydym eisoes wedi bwrw golwg dros nodweddion y ddefod o dderbyn y Saboth (KIDDUSH) (gwel. 5.1), a dylid yn awr amlinellu prif ddefodau'r Saboth.

Digwydd prif ddefodau'r Saboth yn y synagog fel y gwelwyd wrth ddisgrifio gwasanaeth y synagog (gwel. 5.2). Yma nid oes ond eisiau i ni gyfeirio at yr AMIDAH Sabothol, y weddi i gysegru'r dydd fel dydd sanctaidd i'r Arglwydd.

Elfen anhepgor o'r defodau yw adrodd y SHEMA, credo sylfaenol Iddewiaeth (gwel. 5.2). Trwy adrodd bendithion y Saboth, cofia'r Iddew am waith Duw yn creu'r byd, ac am ei waith achubol yn hanes Ei bobl. Hefyd y mae'r bendithion yn ernes o'r iachawdwriaeth sydd i ddyfod i waredu ac i ddychafu'r bobl etholedig. Y mae'n arferol i ddarllen rhan o MISNA'r Saboth mewn rhai synagogau a rhan o'r KIDDUSH mewn rhai eraill (gweddiau i sancteiddio'r Saboth, gwel. 5.1). Yn fwy cyffredinol ceir darllen-iadau o'r TORAH a'r HAFTORAH (proffwydi). Fel y gellid disgwyl, offrymir gweddïau, yn arbennig y gweddïau hynny a neilltuir ar gyfer defodau'r Saboth.

5.4 *Gweddi a Mawl*

Y mae Iddewiaeth yn disgrifio gweddi fel 'sefyll ar fan uchaf y byd'. Nid oes agwedd fwy pwysig ar y weithred o addoli na gweddi. Fel mynegiant o'r ysbryd defosiynol, y mae pedwar math ar weddi — gofyn, clodfodi, diolch ac edifarhau. Y gair am weddi yw TEFILLAH, sy'n golygu naill ai 'erfyn', 'eiriol', neu 'farnu'. Ond beth bynnag am ystyr wreiddiol y gair, pwysicach i'r Iddew yw ysbryd ei weddi.

Gydag amser datblygodd gweddïau ffurfiol, yr AMIDAH, er enghraifft, a chyfansoddwyd gweddïau i'w hychwanegu at y llyfr gweddi, SIDDUR (gwel. 3.3A). Sonir yn y Beibl am y modd y dylid offrymu gweddïau — plygu'r lin (1 Brenhinoedd 8 : 54), dangos yr wyneb (Exodus 34 : 8), dal y breichiau i fyny (1 Brenhinoedd 8 : 23).

Ond beth bynnag am hynny, dylai gweddi godi o'r galon ac o ysbryd dwys.

'Wrth weddio dylai dyn gadw ar flaen y meddwl . . . fwiadau ei weddïau, a dylai ei weddi fod er mwyn y Nefoedd ac nid er mwyn ei ddymuniadau personol, a dylai ei holl gorff arswydo wrth iddo lefaru enw Duw.'

Nid dyletswydd allanol ydyw gweddi, ond dyhead y galon am gymundeb â Duw. Dywed y Misna:

'Â meddwl defosiynol yn unig y dylai dyn weddio.'

Ac

'Y mae'r sawl sy'n codi'i lais wrth weddio yn brin o ffydd.'

Gall gwrandao ar rywun arall yn gweddio fod yn fendith, a gall un person ymateb i weddi person arall ag Amen. Y mae gweddïau unigolion yn mynegi ac yn cadarnhau gerbron Duw fod pob Iddew unigol yn aelod o gymdeithas grefyddol ac o genedl ddethol.

Ceir cerddoriaeth yng ngwasanaethau'r synagog, yn arbennig ar achlysuron arbennig, fel, er enghraifft, oedfa hwyrol y Saboth, pryd y cenir rhai o'r Salmu, megis Salm 29. Fel arfer cenir y Salm pryd y gorymdeithir â'r TORAH, ac ar wyliau'r pererindodau cenir yr HALLEL (Salmu 113-118). Hefyd ceir emynau ochr yn ochr â gweddïau, fel y dengys y disgrifiad hwn o'r traddodiad:

1. Cenir y Deunaw Bendith gan y cantor, gan gynnwys yr hyn a elwir yn TRISAGION, sef 'Sanct, Sanct, Sanct' a bendith yr offeiriaid.
2. Siantio'r KADDISH, gweddi Aramaeg.
3. Cenir yr emyn 'LEKHAH DODI' (emyn cyfriniol) fel rhan o'r ddefod i groesawu'r Saboth.
4. Cenir gwahanol emynau i gloi'r oedfaon.
5. Cenir emynau i erfyn am law yng Ngŵyl y Pebyll, ac i ymbil am wllth yng Ngŵyl y Pasg.
6. Cenir galarnadau ar achlysur cofio distrywio'r deml.
7. Cenir emynau i fynegi edifeirwch yng Ngŵyl y Flwyddyn Newydd a Gŵyl Dydd y Cymod.
8. Cenir yr hyn a elwir yn HAKKAFOT (cylch) yng Ngŵyl y Llawenhau am y TORAH.

Yn ystod y canrifoedd diweddar, gwelwyd mwy a mwy o ddefnyddio cerddoriaeth draddodiadol a chyfoes yn y synagog, a pharheir i chwilio am gyfryngau cerddorol addas i fynegi ysbryd gorffoeddus yr addoliad.